**Cofnodion cyfarfod Pwyllgorau Cynllunio a gynhaliwyd Nos Lun, Mehefin 15fed 2015 am 7 o'r gloch yn Neuadd y Dref, Dinbych.**

**Presennol:** Cynghorwyr Mark Young (cadeirydd), Rob Parkes, Gaynor Morgan Rees, Medwyn Williams a Medwyn Jones) (Clerc y Dref).

**Ymddiheuriadau:** Cyng. Margaret Bowe, Shereen Devine, Philip Stevens.

**Arsylwi:** Cyng Colin Hughes

Croesawodd y cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

**1 Datgan Diddordeb Personol:** Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad:

**2. Apwyntio Dirprwy Gadeirydd:** Cyng Rob Parkes

**3. Materion Brys:** Dim

**4. Ceisiadau am ganiatâd cynllunio**.

Yn dilyn trafodaeth, cytunwyd i beidio â gwrthwynebu'r ceisiadau canlynol am ganiatâd cynllunio

(1) Saronfa, Rhiw'r Castell - codi coeden onnen o'r ardd
(2) 45, Dalar Wen - codi estyniad to ar ongl ar y llawr cyntaf
(3) Fferm Tŷ Newydd, Trefnant - codi adeilad amaethyddol ar gyfer anifeiliaid
(4) Fferm Tŷ Newydd, Trefnant - codi estyniad i'r parlwr godro
(5) 36, Parc Mytton - codi estyniad un llawr ar gefn yr adeilad (ail gyflwyniad)
(6) Cidwm, 1 Llys Tudur - codi estyniad un llawr ar gefn yr adeilad
(7) Land at Former Kwik Save, Station Yard - gosod isbwerdy trydan
(8) 68, Erw Salusbury - codi estyniad i'r adeilad
(9) Yr Hen Gerbyty, Tŷ Mawr, Ffordd yr Wyddgrug - adeiladu tŷ gwydr
(10) 9, Parc Clwyd - torri i lawr Ffawydden

Ynglŷn â'r cais cynllunio a dderbyniwyd ar gyfer Frondeg, Ffordd Rhuthun - manylion gosodiad 14 o dai a thirlunio'r safle, cytunwyd i beidio â gwrthwynebu'r cais. Er hynny cytunwyd i gyflwyno dau fater i sylw'r pwyllgor cynllunio ac i ofyn i ystyriaeth gael ei roddi i'r ddau fel a ganlyn: (1) i ofyn cwestiwn ynglŷn â nifer o fannau parcio oddi ar y stryd oedd ar gael i blotiau 9 &14 i'w gymharu ar plotiau eraill ac i awgrymu fod dau o fannau parcio fod ar gael ar gyfer y ddau blot yma yn unol â'r plotiau eraill. (2) Pan fydd y fynedfa newydd i'r safle yn cael ei ffurfio ar Ffordd Rhuthun i awgrymu fod y fynedfa yn cael ei chwblhau i safon foddhaol ar gyfer cerddwyr yn defnyddio Ffordd Rhuthun cyn i'r gwaith ar y safle gychwyn.

**5. Materion Cynllunio eraill:**

(1) Planning Aid Wales - gweithdy hyfforddiant cynllunio ar gyfer cynghorwyr tref a chymuned 15.7.15 - Neuadd y Dref Bae Colwyn - nodwyd.
(2) Nifer o ohebiaeth a dderbyniwyd oddi wrth Mrs Carol Roxburgh ac eraill ynglŷn â newidiadau i'r CDLl a Gohebiaeth oddi wrth GSDd yn ateb. Cafwyd cryn drafodaeth ar yr ohebiaeth. Mynegwyd nifer o bryderon ynglŷn ac unrhyw fwriad i ddatblygu yn ardal y Brwcws. Gofynnodd y cadeirydd i'r Cyng Raymond Bartley, tra'n disgwyl am gyfarfod arall, i egluro a diweddaru'r sefyllfa bresennol. Yn y diwedd cytunwyd i ysgrifennu at GSDd yn cefnogi trigolion y Brwcws yn eu gwrthwynebiad i unrhyw ddatblygu ar y safleoedd a gynigwyd ac yn

gofyn i'r CDLl gael ei ddiwygio i gorfforí safleoedd tir llwyd gan gynnwys safle cyn Ysbyty Gogledd Cymru.

Am nad oedd mwy i'w drafod, terfynwyd y cyfarfod am 6.49 o'r gloch.

Arwyddwyd:..................................................................................................(cadeirydd)

Dyddiad:.............................................